18 acres of private grounds to exercise
Fully licensed,
30 years' experience caring for clients' dogs
To view our kennels phone 01267 281628
or 07833630605 or email conquelle@gmail.com

Gwyrdd Enterprises

Property Maintenance - Household Repairs
Patio Cleaning - Drain unblocking
Carpet, Rug and Upholstery Cleaning
Car Battery Diagnosis, Jumpstarting & Replacement.

TV and computer Set Up

If you can't see what you need just ask

Contact Jon 07943 948173

Based in Llanpumsaint

Gwyrddenterprises@gmail.com



Hafan Holistaidd
Holistic Heaven

Adweitheg / Reflexology
Tyluno / Aromatherapy
Massage
Indian Head Massage
Thermal-auricular (Ear
candling)
Reiki

Meleri Brown MAR

mels.brown@hotmail.co.uk 07855488660

Therapy Cyflenwol – Complementary Therapist
Penllwynuchel, Nebo, Llanpumsaint, Caerfyrddin,
SA33 6LT

Gwalia Garage

Peniel Road Rhydargaeau
MOT, servicing, tyres, repairs
Tel: (01267) 253599
JRB & K Thomas
Peniel Road Carms SA32 7DR



Virtue Holistics

Holistic therapies
Reflexology
Indian head massage
Functional facial.

Megan Williams
07717763460



Café Felinfach@Little Mill
Equestrian

Opening hours: Tuesday - Sunday 9:30 - 15:30

Contact: info@littlemillequestrian.co.uk
07951 601612

Local Business? You can advertise here for £50
Includes an advert in Village Voice for 6 issues,
plus a webpage linked to yours on
www.llanpumsaint.org.uk, or just £5 an issue for
advertising in Village Voice.

**Contact Carolyn Smethurst 01267 253308 or
email info@llanpumsaint.org.uk**



Llais y Llan Ebrill 2024

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf 26 Fai 2024

Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol

www.llanpumsaint.org.uk info@llanpumsaint.org.uk



Diolchwn Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Brechfa am gefnogi Llais y Llan a www.llanpumsaint.org.uk drwy roi £3,000 y flwyddyn am ddegawd – felly cyfanswm o £30,000

Gorymdaith Sul y Blodau o'r neuadd i'r eglwys

Photo: Marlene Wareham



Llanpumsaint Tractor Run

Dyddiadau i'ch dyddiadur

Digwyddiadau untro

- **Dydd Mercher 17 Ebrill – Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymdeithas Lles ac Adloniant Llanpumsaint – Neuadd Llanpumsaint – Croeso i bawb.**
- **Dydd Iau 18 Ebrill – Sgwrs ar ‘Archwilio penderfyniadau anodd rydyn ni'n tueddu i'w gohirio’** gan Charlotte Drew (Atwrneiaethau, Ewyllysion Byw, Ewyllysion, cefnogi pobl â Dementia), 10.30 a.m. yn Neuadd y Pentref.
- **Dydd Gwener 19 Ebrill – Noson Gwis!** Drysau Neuadd y Pentref yn agor am 7 p.m. i ddechrau am 7.30 p.m. £2.50 y pen; timau o hyd at bump. Dewch â'ch diodydd, eich gwydrau a'ch byrbrydau eich hun.
- **Dydd Sadwrn 20 Ebrill – Drama fyw *About Women* gan Attic Theatre,** Castellnewydd Emlyn. Drysau Neuadd y Pentref yn agor am 7 p.m. i ddechrau am 7.30 p.m. Tocynnau'n £7 wrth y drws neu gweler y poster.
- **Dydd Mawrth 23 Ebrill: Pryd Bwyd i Godi Arian** ar gyfer y Gymdeithas Lles ac Adloniant yn y Bluebell Inn, Cynwyl Elfed am 6 pm. £12.50 y pen (pryd gosod i 4). I archebu tocynnau, cysylltwch â Mathew 07970 030679
- **Dydd Sul 11 Mai: Te Hufen** yn yr Eglwys, 2 p.m.
- **Dydd Mawrth 14 Mai – Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a Chyfarfod Arferol y Cyngor Cymuned,** 8 p.m. yn Neuadd y Pentref.
- **Dydd Gwener 17 Mai – Noson Gwis!** Drysau Neuadd y Pentref yn agor am 7 p.m. i ddechrau am 7.30 p.m. £2.50 y pen; timau o hyd at bump. Dewch â'ch diodydd, eich gwydrau a'ch byrbrydau eich hun. Gwobr ariannol i'r tîm buddugol.
- **Dydd Gwener 31 Mai – Sesiwn Ganu,** Neuadd y Pentref, 7-9.30 p.m. Dewch â'ch diodydd a'ch byrbrydau eich hun, ynghyd â £2 tuag at y gost o logi'r Neuadd.
- **Dydd Llun 3 Mehefin – Cyfarfod Pwyllgor y Neuadd,** 8 p.m.
- **Dydd Gwener 14 Mehefin – Sesiwn Ganu,** Neuadd y Pentref, 7-9.30 p.m. Dewch â'ch diodydd a'ch byrbrydau eich hun, ynghyd â £2 tuag at y gost o logi'r Neuadd.
- **Dydd Gwener 21 Mehefin – Noson Gwis!** Drysau Neuadd y Pentref yn agor am 7 p.m. i ddechrau am 7.30 pm. £2.50 y pen; timau o hyd at bump. Dewch â'ch diodydd, eich gwydrau a'ch byrbrydau eich hun. Gwobr ariannol i'r tîm buddugol.
- **Dydd Sul 23 Mehefin – Sesiwn tacluso'r rhandiroedd a barbeciw,** o 1 p.m. ymlaen
- **Dydd Sadwrn 29 Mehefin – Diwrnod Hwyl y Pentref, Neuadd a Pharc Llanpumsaint**
- **Dydd Gwener 12 Gorffennaf – Sesiwn Ganu,** Neuadd y Pentref, 7-9.30 p.m. Dewch â'ch diodydd a'ch byrbrydau eich hun, ynghyd â £2 tuag at y gost o logi'r Neuadd.
- **Dydd Gwener 19 Gorffennaf – Noson Gwis!** Drysau Neuadd y Pentref yn agor am 7 p.m. i ddechrau am 7.30 p.m. £2.50 y pen; timau o hyd at bump. Dewch â'ch diodydd, eich gwydrau a'ch byrbrydau eich hun. Gwobr ariannol i'r tîm buddugol.

Digwyddiadau Cyson

- **Bowlio Dan-do** - Neuadd - nos Lun ac Iau - 7.30 tan 9.30
- **Caffi Bach yr Eglwys** - Dydd Mawrth 11.30 tan 2.0 o'r gloch.
- **Ymarfer Cylched** – Neuadd- Nos Fercher o 7 – 8
- **Cwtsh Cynnes** - Neuadd – Dydd Iau 10 tan 1 o'r gloch – creffttau, cardiau, tennis bwrdd a mwy i'w ganlyn gan ginio cartref. Croeso i bawb!
- **Ymarfer Cylched** – Neuadd- Dydd Sul o 10-11

Gwasanaethau Crefyddol

- **Eglwys Llanpumsaint - Ewcharist Sanctaidd** am 9 o'r gloch fore Sul
Chwarae gyda Duw – dydd Mawrth 3.30 tan 5.00 – stori, gweithgaredd a rhywbeth i fwyta i blant gyda'u rhieni adeg y tymor.
Cylch DOT - Plant dros 10 oed - Eglwys Dydd Iau 5.30 tan 7.00 adeg y tymor ysgol.
- Llanllawddog a Celynin Bronwydd 11 bore bob Sul
Cysylltydd – Tad Tim Nelson 07368 496917 timnelson@cinw.org.uk
- Tudalen Facebook: Llanpumsaint Bronwyddand Llanllawddog Churches
- **Capel Caersalem** Am wybodaeth y gwasanaethau cysylltwch ag Eleri Morris 01267 253895.
- **Capel Ffynnonhenri** - Am wybodaeth y gwasanaethau cysylltwch â Danny Davies (Trysorydd) 01267 253418 neu Gwyn Nicholas (Ysgrifennydd) 01267 253686
- **Capel Nebo** - Gwybodaeth am wasanaethau oddi wrth Meinir Jones (Ysgrifenyddes) 01267 253532

Gwasanaethau wythnosol y pentref

- Dydd Mawrth - Cerbyd y Swyddfa Bost - 2 hyd 3.45 o'r gloch – Gyferbyn a'r tafarn
- Dydd Mercher – Cerbyd y Llyfrgell 10.45 hyd 11.15 ger y Neuadd - 11.15 hyd 11.45 ger y tafarn –
ymweliadau unwaith bob tair wythnos – 1 Mai, 22 Mai e 12 Mehefin
- Dydd Mercher - Cogydd Bara - gwasanaeth i'r tŷ - 07971 740505
- Dydd Mercher - Pysgod - gwasanaeth i'r tŷ - 07779 987305
- Dydd Iau - Ffrwythau a llysiau - gwasanaeth i'r tŷ - 07969 047045
- Dydd Gwener – Cerbyd y Swyddfa Bost - 1 hyd 3 o'r gloch – Gerllaw'r Tafarn.

Lleoliadau'r Adfywiwr lleol: wastad ar agor 24 awr y dydd.

- Tu fas y Neuadd Goffa – SA33 6BZ
- Tu fas Tafarn y Railwe - SA33 6BU
- Ar wal fferm Henfryn Ffynnonhenri – SA33 6LD
- Tu fas Festri Capel Nebo - SA33 6HN

Pwyllgor Lles ac Adloniant Llanpumsaint (Y Cae Chwarae)



Yn dilyn y gwledda a'r cyfarfodydd cynllunio, dechreuwyd ar y gwaith plannu yn y Cae ar y 21ain o Fawrth gyda diolch arbennig i ddisgyblion Ysgol Llanpumsaint, a chefnogaeth CARE (Egni Adnewyddiadau Cwm Arian), arianwyd gan Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Brechfa. Mae hwn yn rhan o gynllun FOC (Bwydo ein Cymuned) gyda CARE gyda'r nod o addysgu ysgogi ac ysbrydoli cymunedau Sir Gar i dyfu cadw a pharatoi bwyd ar diroedd agored. Drwy gydweithio'n lleol y bwriad i'w cyfoethogi bywydau.

Diolch i bawb wnaeth ail-fuddsoddi yn y Clwb Cant, ac nid yw rhy hwyr i neb arall ymuno. Talwch Sarah Moore neu Heledd Jones cynted a phosib, neu gysylltu ar y lein. Cadarnheir ar parcllanpumsaintpark@gmail.com <<mailto:parcllanpumsaintpark@gmail.com>> Yr elusen ddewisol fydd Banc Bwyd Caerfyrddin eleni eto, sef Trussell Trust, achos haeddiannol.

Diolch i'r Cyngor Cymuned am eu rhodd o £500 i hybi welliannau'r Cae Chwarae.

Dyddiau i'r Dyddiadur

- 17eg Ebrill – Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i'w ddilyn gan gyfarfod arferol yn y Neuadd 8 o'r gloch.
- 23ain Ebrill Pryd o fwyd i godi arian yn y Blue Bell Cynwil - £12.50 y pen i'w rannu rhwng pedwar - tocynnau gan Matthew 07970030679
- 29ain Mehefin Dydd Hwyl - ar y Cae Chwarae ac yn y Neuadd.
- 7fed Medi Helfa Drysor y Ceir – manylion i ddilyn

Rydym yn ffodus o'n maes chwarae hyfryd sy'n ei gynnal gan wirfoddolwyr. Os hoffech gynnig help llaw mewn unrhyw ffordd i gynnal ac ehangu'r fenter dewch i'r Cyfarfod neu cysylltwch drwy e-bost neu siarad â Aaron Jones 07814157946 neu aelod o'r Pwyllgor.

Sarah Moore

Neuadd goffa Llanpumsaint a Fynnonhenri

Yn rhan o'r cyllid hael o dros £140,000 gan Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Coedwig Gorllewin Brechfa, mae gwaith ar y gweill i greu ardal far ddynodedig yn y neuadd. Bydd gwaith cydategol yn cael ei wneud cyn hir i uwchraddio'n gegin.

Y prif brosiect yn ystod misoedd yr haf fydd yr estyniad. Mae caniatâd cynllunio bellach wedi'i sicrhau i uno'r bloc toiledau allanol â'r neuadd, uwchraddio'r toiledau (un i gynnwys cawod at ddefnydd y caeau chwarae), ac ardal storio sylweddol.

Mae'r archebion ar gyfer y neuadd yn parhau i fod yn gyson, ac ychwanegwyd hyfforddiant cylchol ar fore Sul yn ddiweddar. Yn anffodus, mae'r dosbarthiadau Zumba ar eich eistedd a Zumba clasurol wedi dod i ben am fod yr hyfforddwr wedi cael swydd yn y Ganolfan Hamdden. Os oes unrhyw un yn gwybod am hyfforddwr ioga, Zumba, dawnsio llinell, *pilates*, neu debyg, cysylltwch â ni.

Mae'r gofod cymdeithasol ar fore Iau yn parhau i ffynnu. Mae'n lleoliad anffurfiol i gwrdd â chymdogion, creu ffrindiau newydd, a mwynhau cinio cartref. Gyda chymorth Cronfa Brechfa, mae artistiaid gwadd wedi cynnal sesiynau ar gelfyddyd gwifrau, gemwaith, masgiau, llusernau, gwehyddu cyrs, *papier-mâche* a stampio copr. Yn y cyfamser, rydym yn cynnal ein gweithgareddau crefft ein hunain, yn ogystal â chardiau, dominos, tennis bwrdd neu ddim ond sgwrsio.

Ar ddydd Iau 18 Ebrill am 10.30, byddwn yn cynnal sgwrs ar 'Archwilio penderfyniadau anodd rydyn ni'n tueddu i'w gohirio'. Bydd Charlotte Drew yn rhannu ei phrofiadau ac yn esbonio pwysigrwydd llunio Atwrneiaethau Arhosol ar gyfer iechyd a llesiant, a materion ariannol; Penderfyniadau ymlaen llaw/ewyllysion byw; ac Ewyllysion. Bydd hi hefyd yn darparu cipolwg nad yw'n rhy glinigol ar ofalu am/gefnogi/ddeall pobl â dementia. Bydd y sesiwn yn agored i bawb.

Clwb Garddio Bronwydd a'r ardal

Cynhelir ein cyfarfodydd unwaith y mis ar y trydydd dydd Mawrth am 7.30 yn Neuadd Bronwydd, ac fe drefnir ymweliadau a gerddi gydol yr haf.

- 7fed Mai - Aiff ein hymweliad cyntaf i Erddi Clynne yn Abertawe - sy'n arbenigo mewn rhododendron a pieris.
- 21ain Mai - Adam Alexandra Y Ditectif Hadau - Noson agored!
- 18fed Mehefin - Mark Ashton - O Amgylch y Sioeau

Ceir mwy o wybodaeth gan susan.mead@hotmail.com

Bowlio Dan- Do Llanpumsaint a Nebo

Daeth tymor 2023-2024 i ben. Da gennym gyhoeddi i ni orffen ar frig o Adran 2, ac felly'n dychwelid i'r Adran Gyntaf wedi un tymor yn unig yn yr Ail. Gorffennwyd gyda 19 buddugoliaeth, 3 wedi colli, 171 pwynt a 386 + gwahaniaeth ergydio.

Safleoedd y 4 cyntaf yn yr Ail Adran

Team	Played	Win %	Won	Draw	Lost	Shot diff.	Points	Points %
Llanpumsaint	22	86%	19	0	3	+386	171	78%
Llangyndeyrn	22	73%	16	0	6	+121	141	64%
Llanddarog B	22	59%	13	0	9	+57	132	60%
Gelli House	22	55%	12	1	9	+21	111	50%

Yn Mis Mawrth chwaraeodd Catrin Williams a Kiernan Thomas i Gymru Dan 21 erbyn Lloegr yng Nghaerfyrddin. Enillodd Cymru Dlws Bill Jenkins am y tro cynta' ers 7 mlynedd. Longyfarchiadau i'r ddwy am chwarae mor dda, gan ddod ag anrhydedd i'r Clwb. Bydd dyfodol bowlio Dan-Do mewn dwylo da am hir amser.



Dymuna'r Clwb hefyd longyfarch ein cyn- gaptan **Aled Edwards am ennill cystadleuaeth Pedwarawd y Byd yn Belfast**, gydag Alan Evans, Andrew Evans a Michael John o Sir Benfro. Heb eu trechu drwy gydol y penwythnos, dyna gamp i chi! Don't forget to check out our Facebook page - Llanpumsaint and Nebo Short Mat Bowls Club. Bowlio Dan-Do Llanpumsaint a Nebo.

Bydd y Clwb yn cyfarfod i ymarfer bob nos Lun a Nos Iau yn y Neuadd o 7.30yh tan 9.30, tan ddiwedd Ebrill. Mae yna groeso i bob chwaraewr newydd o 16 oed hyd 99, ac mae yna Ceir mwy o wybodaeth drwy hyfforddwyr trwyddedig wrth law i'ch cymorth a'ch ysbrydoli. ffonio Derick Lock ar 253524 neu ein Hysgrifenyddes Jill Edwards ar 01267 253474

Newyddion Codi Canu

Erbyn i chi ddarllen hwn bydd Codi Canu wedi cynnal eu parti codi arian cyntaf, yn y gobaith o gasglu digon at fudiad Poundies Gorllewin Cymru, a'u nod ail-gartrefu cwn. Gobeithiwn gyflawni hyn drwy gynnal noson yn gwrando ar gerddoriaeth dda, yn y gobaith y byddwch yn ymuno i ganu. Cyfle i fwynhau drwy gefnogi achos da.

Bydd y dathliad nesaf ym Mis Mai sef pen blwydd gyntaf Codi Canu. Ers cychwyn datblygon i fod yn griw agos sy'n gwerthfawrogi cerddoriaeth dda gan ymuno i ganu pan ddaw'r ysfa. Os am ymuno gallwn sicrhau'r croeso cynnes a thipyn o hwyl.

Byddwn yn cwrdd yn fisol o 7 o'r gloch tan 9.30 yn y Neuadd Goffa. Codwn £2 at gynnal yr adeilad gan gynnwys tocyn raffl. Dewch a'ch bwyd a'ch diod gydach, ac ymunwch yn y gerddoriaeth canu os mynnwch. Siwr iawn y gwnewch1 Dyma'r dyddiadau o Fis Mai ymlaen –

Mai 31ain – Mehefin 14eg – Gorffennaf 12ed. Edrych ymlaen i'ch gweld! 🎵 🎶

Carolyn Atkinson




**TAITH Y GLANNAU
COASTAL WALK**

DYDD LLUN GWŶYL Y BANC, MAI 6^{ED}
Ymunwch â ni ar daith gerdded addas i'r teulu ar gyfer Hosbis Skanda Vale. Clymchwch lasys eich sgidiau cerdded a dewisiwch o gerdded llwybr ysblennydd llwybr arfordir Sir Benfro neu coedlan hynafol a hudolus Tycanol.

BANK HOLIDAY MONDAY, 6TH MAY
Join us on a family-friendly sponsored walk for Skanda Vale Hospice. Lace up your walking boots and take your pick from a stunning Pembrokeshire coastal path or the enchanting ancient Tycanol woodlands.

skandavalehospice.org/walk

 Ffôn / Call: 01559 371222. E-bost / Email: hospice.fundraising@skandavalehospice.org
Registered Charity Number: 1166180



Dewch i weld drama fyw 'About Women' yn Neuadd Llanpumsaint Sadwrn 20 Ebrill

Rydym yn falch drios ben am y gwahoddiad i gynnal ein drama @About Women' yn eich Neuadd. Perfformiwyd hon yn Theatr yr Attic Castell Newydd Emlyn y mis Mawrth, lle i gyd yn aelodau. Bu'r ymateb mor gadarnhaol felly edrychwn ymlaen at ddod i Lanpumsaint. Mae'n gynhyrchiad doniol a meddylgar. Dewch i'n gweld am ryw awr fach ar Nos Sadwrn 20fed o Ebrill, a bydd Bar Bach Matthew ar agor hefyd.



yn cyflwyno



Yn Ymwneud â Menywod

**“Yn darganfod hanes
bywydau pob dydd me-
nywod sydd yn aml heb ei
adrodd”**

**Neuadd Goffa
Llanpumsaint**

**Dydd Sadwrn
20fed Ebrill**

**7.30yh
Drysau'n agor
7.00yh**

Sioe wych, yn
ddoniol tu hwnt,
prynwch docyn...
os fedrwch!

Tocynnau £7.00

Wrth y drws
neu www.attictheatre.wales
neu ffoniwch 07887 834133

Y cynhyrchiad
nesaf yn Attic The-
atre – “Two” gan
Jim Cartwright.
Ebrill 18, 19, 20,
25, 26 a 27ain.

Cynnwys sensitive - 16+

Cyfeiriadur Menter Gofal a Chynnal Sir Gar

Mae'r Cyfeiriadur yn cynnwys rhestr o fentrau bychan gofal a chynnal o fewn y sir. Fe'i lluniwyd gan gatalydd Gofal mewn cydweithrediad a PLANED a chefnogaeth Cyngor Sir Gar i hyrwyddo gofal a chynnal yn y gymuned.

Nod y Cyfeiriadur yw cynnig dewis ehangach i'r rhai sy'n chwilio am ofal a chynnal lleol sy'n berthnasol iddynt. Mae dwy ran i'r gwasanaeth –

- Gofal Cartref, cymorth a chefnogaeth gymdeithasol
- Iechyd a gwasanaeth cymdeithasol

Maent i gyd yn cael eu cynnal gan aelodau lleol ar raddfa gyfyngedig. O fod yn fychan daw'r cyfle i adeiladu perthynas adeiladol gyda'r rhai sy'n derbyn cymorth.

<https://planed.org.uk/directory-of-care-and-support-enterprises-in-camarthenshire/>

Dewinwyr Gorllewin Cymru

Mae dewinio'n ymarfer defnyddiol a diddorol ac yn hawdd i'w ddysgu. Credir iddo gychwyn yn yr Aifft neu hyd yn oed yn gynharach. Gwelir cwmnïau'n defnyddio dewinwyr profiadol i ganfod dŵr, mwynau, olew, gwifrau trydan ac yn y blaen. Gwelir rhai yn dewinio iechyd eu bwyd, neu ganfod straen geopathig yn yr amgylchfyd, ond cred bersonol yw hyn heb gadarnhad gwyddonol hyd yn hyn. Pam na ymunwch a ni i ganfod pethau dros eich hunan. Fel arfer down o hyd i amser ar ddiwedd ein cyfarfodydd i roi gwrs fer, neu'n well fyth dowch ar un o'n hymweliadau.

Cyfarfodydd i ddod yn Neuadd Bronwydd am 1.45 - 2 o'r gloch:

- Sul 28ain Ebrill - Don MacGregor BSC, PGCE, MA - Awdur "Blue Sky God" The evolution of science and christianity" and the Wisdom Series" of books. Bellach wedi ymddeol o'r weinidogaeth ac yn byw yn Nhŷ Ddewi. Bydd yn egluro pam iddo gredi i'r byd fod yn Sentient <<https://www.donmacgregor.co.uk>>
- Sul 26ain Mai – Ros Briagha Rwns a sut i'w defnyddio.
- Sul 23ain Mehefin - Dydd Dewinio – Cyfle i ddysgu dewinio a rhoi cynnig arni.
- Sul 28ain Gorffennaf - Theolyn Andrews - Angylion a'r Cabbalah

Clwb Gwili Chwedeg

Dyma gylch llewyrchus yn cwrdd bob mis a chynnal nifer o deithiau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys y Twrci a Thinsel poblogaidd am 4 diwrnod yn Nhachwedd. Dros y blynyddoedd buom yn Nyfnaint, Cernyw a Gwlad yr Haf.

Y tro diwethaf croesawid Mary Thorley (hyn yn lle Jeremy John fydd gyda ni ym Mis Mai). Siaradodd yn ddwys am wraig fu'n ddi-nod hyd yn hyn, sef Rachel Barrett y swffragét radical. Ganed hi yn Stryd yr Undeb yn 1874, ac oherwydd ei chadernid a'i deallusrwydd daeth yn aelod blaenllaw o'r mudiad Swffragét ac yn agos i'r Pankhursts. Bu'n ffotograffydd iddynt a fu'n adolygu llawer o'r areithiau a wnaed. Dioddefodd lawer o gam-drin yn y carchar gan gynnwys yr arfer erchyll o orfodi i fwydo drwy fwced a phibell. Yn nes ymlaen teithiodd yn gyson i gefnogi achosion oedd yn agos i'w chalon.

Cyfarfodydd i ddod yn Neuadd Bronwydd am 2 o'r gloch (maes parcio prysur)

- Llun 22ain Ebrill - Mared Davies - Cerflunydd a Gof
- Mercher 15fed Mai - Taith i weld Tapestri Abergwaun - er cof am y wraig wnaeth ddychryn milwyr Bonaparte yn 1797. Ymlaen wedyn i Dafarn Sinc yn Rosebush ac i derfynu yn Arberth am swper.
- Llun 20fed Mai - Jeremy John - Bywyd a chyfnod Thomas Crapper
- Mercher 12fed Mehefin - Taith i'w phenderfynu ddydd Llun
- Llun 24ain Mehefin – Tom Phelps Hiwmor y Cymoedd

Aelodaeth yn £10 - Mynedfa yn £2 gyda thocyn raffl Ceir mwy o wybodaeth oddi wrth yr Ysgrifenyddes Val Giles 01267 281194

Rhandir Llanpumsaint

Mae'r gwanwyn ar droed a gobeithio gwelir yr holl law yn dod i ben. Mae'r rhandir yn dal i ddatblygu a chroesasom aelod newydd yn ein Cyfarfod cyffredinol. Mae gennym rhai lleiniau sbâr os oes rhywun am ymuno. Croeso i bawb o'r garddwyr profiadol i rywun am dyfu bysedd gwyrdd - rydym yn griw bach cyfeillgar. £25 y flwyddyn yw'r aelodaeth - ac yn ffordd dda o flasau ffrwythau a llysiau iachus a mwynhau'r awyr agored.

Os am ymuno cysylltwch ag **Eirian 07896 050283** neu **Sarah 07811 288104**.

Daw'r cyfnod cymhenni nesaf ar Sul 23ain Mehefin am 1 o'r gloch. Bydd yr aelodau'n cydweithio i dacluso'r rhandir a mwyhau barbeciw wedyn. Dewch atom oherwydd 'does dim angen fod yn aelod ar y dydd hwn - a byddai help llaw ychwanegol yn dderbyniol gyda'r addewid am baned, coffi a chacen i ddilyn. Os am ddod rhowch wybod er mwyn i ni sicrhau fod digon i fwyta wedi ei baratoi. Byddwn yn cynnal safle ar Ddydd Hwyl y Pentref ar Sadwrn 29ain Mehefin, lle bydd digon o blanhigion ar gael a chyfle hefyd i sgwrsio gydag aelodau'r Rhandir.


Yn Olaf diolch arbennig i Eirian, Sarah a Becki gynnal eu swyddi fel Cadeirydd, Trysorydd ac Ysgrifennydd ac i bawb arall wnaeth gyfrannu i'r Rhandir dros y flwyddyn olaf yma.

Michelle

Map y Pentref

Ychwanegwyd a diweddarwyd tipyn ar Fap y Pentref, gan ychwanegu llawer o'r tai cyfoes. Mae ar gael nawr ar ffurf ddigidol ac ar Lais y Llan dros dro, ac wedyn yn barhaol ar wefan Llais. Gallwch ei lawr lwytho i'ch cyfrifiadur neu ffon. <https://tinyurl.com/4mdvyv5c>

<https://www.dropbox.com/scl/f...>



Dave Mae'r safle yma yn ddigon diogel

Diolch yn fawr Dave. Carolyn

Eglwys Llanpumsaint

Bu'r mis diwethaf yn brysur iawn gyda llawer o weithgareddau. Mae'r Tad Tim yn dychwelyd yn raddol i'r gwaith ac wedi bod â gofal ei wasanaethau cyntaf, gan ddechrau ar Sul y Blodau. Roedd hyn yn cynnwys gorymdaith yn cael ei harwain gan asyn a merlyn (diolch i Janet a Brian) o'r neuadd i'r eglwys; cafwyd cefnogaeth dda.

Yn ystod wythnos y Pasg, cafwyd sesiwn myfyrio a chanu *Taizé*, sesiwn golchi traed ar ddydd lau Cablyd gyda DOTS, a diolch am y Swper Olaf gan Catherine (gwraig y Tad Tim). Gwelwyd sawl basged o wyau ar Sul y Pasg (fe'ch cynghorir i beidio â rhoi eich holl wyau mewn un fased).

Mae DOTS yn parhau ar ddydd lau, 5:30-7 p.m., a Godly Play ar ddydd Mawrth, 3:30-5 p.m. Mae gwasanaethau'r Sul yn parhau am 9 a.m. gyda'r Tad Tim yn arwain y gwasanaeth, ac mae'r niferoedd yn parhau i gynyddu. Cynhelir y caffi dros dro ar ddydd Mawrth, 11:30 a.m. tan 2 p.m. (archebion olaf).

Bydd yna ddigwyddiad Te Hufen yn yr Eglwys ar ddydd Sadwrn 11 Mai am 2 p.m., felly cadwch y dyddiad yn rhydd – bydd yn werth dod. Yr Eglwys a fydd yn cynnal y lluniaeth ar Ddiwrnod Hwyl y Pentref ar ddydd Sadwrn 29 Mehefin; gobeithio eich gweld i gyd yno.

Bydd nifer ohonoch yn ymwybodol bod Niki Day wedi bod yn tyfu ei gwallt ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Little Princess, i'w lunio'n wig hirach ar gyfer plentyn sy'n dioddef o ganser. Cafodd ei dorri ar 3 Ebrill, ac os hoffech roi rhodd, ewch i Just Giving a chwilio am "Grown a Mop" i ddod o hyd i'r dudalen. Mae Just Giving yn anfon yr arian yn uniongyrchol i'r Ymddiriedolaeth Little Princess i'w ddefnyddio ar gyfer gwneud wigiau, sy'n costio £500 i'w gwneud.



Mae'n ddigon i godi gwallt eich pen

Cylch Meithrin Bronwydd

Ein thema ar ddechrau'r tymor oedd "Y Tywydd a'r Tymhorau" . Pan gofynnwyd i'r plant ym mis Ionawr am eu syniadau ar y tywydd, eu hymateb oedd "welis" a "phyllau mwdlyd".. Yn bendant maen nhw yn gallu gweld yr ochr orau i'r holl law yr ydym wedi cael. Roedd digon o gyfleoedd iddynt i wisgo eu welis ac i ganfod pyllau gwlyb i sblasio ynddynt. Yn ogystal, roedd cyfleoedd i beinto lluniau o'u welis ac ymbarels a'u gweld yn cael eu arddangos yn ardal "y lolfa". Ers i

Gwricwlwm Cymru ddod i rym, mae amgylchedd y lleoliad wedi symud o fod fel ystafell ddosbarth ac yn fwy fel "cartref oddi cartref" i'r plentyn. Rydym wedi bod yn gweithio ar greu ardaloedd yn y lleoliad sy'n teimlo'n gartrefol, a bod ardaloedd swnllyd a thawel iddynt. Rydym wedi ail-greu yr ardal adeiladu y tymor hwn, ac mae yn boblogaidd iawn. Mae chwarae blociau yn rhan bwysig o chwarae a mae blociau pren plaen yn well na dim ar gyfer adnodd penagored. Maent yn galluogi plant i chwarae yn gydweithredol neu ar ben eu hunain i gefnogi pob ardal o ddatblygiad plentyn. Maen nhw yn adeiladu ac yn cynrychioli beth welant yn y byd o gwmpas. Roedd un wythnos pan ddatblygwyd diddordeb mewn adeiladu pontydd-cynllunwyr y dyfodol efallai. Roedd y diddordeb hwn wedi ein hysgogi i edrych ar rhai o bontydd lleol.

Roedd hanner olaf y tymor yn eithaf byr a llawer i gynnwys - Dydd Gwyl Dewi; Diwrnod Byd y Llyfr; Sul y Mamau a Gwyl y Pasg. Roedd y plant wedi mwynhau casglu wyau yn eu basgedi a bu'r helpa wyau yn gystadleuol iawn, ond roedd pawb yn hapus i gael wy siocled ar ddiwedd y tymor..

Mae'r tymor nesaf yn dechrau ar Ddydd Mawrth y 9fed o Ebrill. Gobeithiwn am dywydd gwell er budd pawb. Mae llefydd ar gael yn y Cylch sydd ar agor Boreau Mawrth, Mercher, Iau a Gwener o 9:15 y bore tan 12:00 hanner dydd. Mae sesiwn Ti a Fi hefyd bob Dydd Gwener amser tymor 10.00yb tan 12.00 hanner dydd ar gyfer plant 0-4 oed gyda rhiant/gofalwr. Estynnwn groeso cynnes gyda chyfleoedd i eich plentyn i gymdeithasu, chwarae ac archwilio i ddechrau dysgu sgiliau bywyd hollbwysig. Cysylltwch - cylchmeithrinbronwydd@gmail.com Verona - 07929 431652



Pan oedd 20 milltir yr awr yn gyflym

Rhyw damed o hewl lai nag ugain llath oedd hi, ger Cnwycpistyll ar y gyffordd am Nebo, rhwng tŷ Bethoron un ochr a Brynawel ochor draw. Ond safle holl bwysig i ni blant canol y 1940au. Gan ddilyn cyfarwyddiadau'r radio dyma stadiwm Wembly dydd ffeinal y cwpan peldoed, gyda chotiau bob pen yn goliau. Newid y rhain wedyn i ddau fwcad pan ddeuai'r Prawf Test Criced o Lords. Profai Wimbledon yn dipyn mwy cymhleth wrth hawlio darnau o gorden ar hyd y lle, a dyna pam well oedd hi gan y merched farcio maes hopscoch allan, yn y gobaith i'r glaw gadw draw. Ond beth am y ceir a'r cerbydau'n dod? Dim problem! Anaml welech chi mwy na un neu ddwy mewn awr, a byddem wedi clywed hwrni'r peiriant o bell, wrth iddynt geisio anelu at 20 milltir yr awr. Felly digon o rybudd ac amser i symud y tacl ac yna ail-osod.



Bethoron - Brynawel

Gwelwyd rhai pobl cefnog yn gallu prynu cerbyd yn y 1920au, ond wrth i fywyd galedi ac yna'r Ail Ryfel Byd gychwyn, sychu gwnaeth y gwerthiant. Yn wreiddiol dim ond y gwŷr mawr oedd yn gallu fforddio un, ond wedyn gwelwyd bancwyr a doctoriaid ac yna dynion busnes yn prynu cerbyd. Yma yn Llanpumsaint gwelwyd canolfan llewyrchus cig Pantycelyn yn buddsoddi mewn Fan lwyd Ford 20hp, i ddsbarthu eu cynnyrch ar draws gwlad mor gynnar a 1916. Dau ddiwrnod cyn Nadolig 1919 dyma William Lewis Ffatri Wlân Glanyrynys yn prynu HP Maxwell 5 sedd (BX 1080); anrheg Nadolig gwych! Erbyn hyn cyrhaeddodd y bysiau Charabang i gludo Côr hynod lwyddiannus Llanpumsaint i Eisteddfodau ar draws gwlad. Wedi ennill fe glywech y canu ymhell cyn iddynt gyrraedd Rhiw Cwppers, ond os taw sŵn y peiriant yn unig ddeuai, byddent wedi colli. Ond eithriad

fyddai hynny!

Yn ystod y 1920au daeth heolydd Llanpumsaint yn gyfarwydd a chlywed tipyn mwy o chwyrnu'r peiriannau ceir, a chreu cynnwrf i sawl ceffyl a chart. Gwelwyd Prifathro'r Ysgol Jac Johns yn prynu eu BX 4532 yn 1924, ac ychydig ddyddiau wedyn cyrhaeddodd motor-beic i'w gymydog Simon George yn Glanyrafon. Nawr gwelwyd ceir yn cyrraedd ambell glos fferm i ddychryn sawl anifail ym Mhantglas a Phentremawr. Gyda Wil yr arloeswr wrth y llyw cyrhaeddodd sawl fan i Bantycelyn. Yn hollol anghyfreithlon dysgodd Wil fy ewythr Dai Dolau i ddreifio a hwnnw prin yn ei arddegau. Ond fe arbedwyd bywyd drwy hynny. Gyda gwraig Glandwr yn ddifrifol wael, a Wil heb fod adre, mi yrrodd fy Wncwl Dai hi bob cam yn y fan i ysbyty Caerfyrddin, i gyrraedd jyst mewn pryd.

Deallodd gwyr busnes fanteision cerbydau a loriau yn gyflym iawn, gallent fynd a nwyddau'r holl ffordd i ben y daith, rhywbeth na allai'r trêen ei wneud. Lawr yn Bronwydd agorwyd canolfan loriau ar safle Timberman heddiw. Erbyn 1929 yr oedd Frank Herbert y Dolwar yn dosbarthu bara dros y lle yn ei fan. Cyn hir felly gwelwyd gorsaf betrol yn agor ger cyffordd y ddwy hewl, reit ar bwys tafarn Y Bronwydd Arms. Cyfleus dros ben!

Yna daeth y dirwasgiad a'r Ail Ryfel Byd i atal y datblygiadau, prin allai rhywun fforddio prynu car bellach. Felly fe welwch nad oedd llawer i atal ar ein gemau rhyngwladol holl bwysig adeg ganol y 1940au, ar y darn bach yna o hewl ger cyffordd Nebo. Ond bydde rhaid cadw llygad barcud am y gyrwyr loriau llaeth gwyllt yna; heb eu hypseto chwaeth, oherwydd bydde angen lift arnom rywbyrd.

Arwyn 2024

Bioamrywiaeth Llanpumsaint



Photo: Dafydd Charles

Mae'r gwanwyn bron yma. Mae'r gwenoliaid wedi dychwelyd o dde Affrica ac yn ymuno â'r adar ymfudol cynnar, megis y siff-saff a'r telor penddu, sydd wedi hedfan yma o dde Ewrop a Gogledd Affrica.

Mae adar preswyl y pentref yng nghanol y tymor bridio: mae'r titw tomos las wedi bod yn archwilio'r blychau nythu ac mae'r dryw bach wedi adeiladu ei nyth. Mae'r aderyn du a'r robin goch eisoes yn bwydo eu cywion yn eu

nythod. Gan fod hanner adar cân y DU yn nythu ar y ddaear neu'n agos iddo (mewn isdyfiant, rhedyn neu gaeau agored), a chan fod nifer ohonynt yn bwydo ar y ddaear, mae'n adeg bwysig o'r flwyddyn i gadw cŵn dan reolaeth mewn ardaloedd nythu (megis glaswelltir agored yn achos yr ehedydd) a chathod dan do dros nos pan fo'r adar ar eu prysuraf.

Bydd Mai 'Tyfu nid Torri' yma cyn hir. Dyma gyfle i adael darnau o'r lawnt heb eu torri fel y gall glaswellt hir a blodau gwyllt fod o fudd i fywyd gwyllt, mynd i'r afael â llygredd, a hyd yn oed ddal carbon o dan y ddaear. Rydym wedi colli tua 97% o'r dolydd blodau ers yr 1930au, ac o ganlyniad mae'r bwyd hanfodol sy'n angenrheidiol i beillwyr, megis gwenyn a gloÿnnod byw, wedi mynd hefyd. Gall hyd yn oed y lleiniau lleiaf o laswellt gyfrannu at gyfran sylweddol o'n tir a all, o'i reoli'n briodol, sicrhau buddion enfawr i natur, cymunedau a'r hinsawdd.

Darllenwch ragor <https://www.plantlife.org.uk/campaigns/nomowmay/>

Os oes gennych ddiddordeb mewn darllen rhagor am blanhigion, coed, ffyngau, gloÿnnod byw, gwenyn ac adar lleol, edrychwch ar dudalen Facebook Bioamrywiaeth Llanpumsaint.

<https://www.facebook.com/groups/262032303472937>.

Cylch Adar Caerfyrddin

Mae hwn yn Gylch bywiog iawn gyda 140 o aelodau. Bydd yn annog sylwi a chofnodi adar o fewn y Sir. Daw ymweliadau maes, darlithiau a chyfarfodydd i chi gydol y flwyddyn. Cyfle hefyd i nodi'r adar a welwch ar y we; a cheir mwy o wybodaeth ar ein gwefan.

<https://carmarthenshirebird.club/>

Cyngor Cymuned Llanpumsaint

Hoffwn gyflwyno fy hun fel Clerc newydd y Cyngor. Os oes gennych gais i 'r Cyngor drafod rhyw bwnc yn eu cyfarfod nesaf, yna ebostiwch fi ar llanpumsaintclerck@btinternet.com neu bostio nodyn ger mynedfa Pantycelyn. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar y 14eg o Fai a bydd eitemau i'w cynnwys ar yr agenda, drwy gyniatad y Cadeirydd, angen cyrraedd yma i fi erbyn y 3dd o Fai.

Ar nodyn gwahanol dymuna'r Cyngor ddiolch i Kumi Ariyadasa am ei wasanaeth Clerc Dros-dro ddi-dâl dros y ddwy flynedd olaf. Heb ei hymrwymiad hi byddai gwaith clerco wedi bod dipyn anoddach. Diolch Kumi.

Angela Bearman

Pen Blwydd hapus i'r Cwis

Yn Ebrill bydd y Cwis yn flwydd oed. Ble aeth yr amser gwedwch! Diolch arbennig i Bijou Belles, Ken;s Angels, Fy Hoff Dîm a May Contain Nuts (y Côt cynt), buont yma bob tro o'r cychwyn. Mae Corners a No Dogs in the Parc yn haeddu sylw am iddynt ddod bob tro wedi iddynt ymuno. Diolch hefyd i bawb sydd wedi ein cefnogi dros y flwyddyn a'n galluogi i godi bron £350 yn 2023 a £129.50 hyd yn hyn yn 2024, i gyd at gronfa'r Neuadd. Mae hwn yn adeilad allweddol i'r gymuned ac rydym yn falch o allu gwneud rhywfaint i'w chynnal pan wëwn cymaint o neuaddau pentref yn ei chael yn anodd.

Mae'r argoelion am eleni yn edrych yn llewyrchus gyda 6 tîm yn cystadlu am y safleoedd brig. Bu Cwis mis Mawrth yn hynod agos gydag ond dau bwynt a hanner yn gwahanu'r tri cyntaf. Mae cyfartaledd pob tîm dros y tair noson dros 62%. Bydd Cwis Ebrill ar y 19eg yn dathlu ein pen-blwydd (gwisgwch lan os mynnwch!

Dyddiadau eraill - 17eg Mai - 21ain Mehefin - 19eg Gorffennaf. Felly edrychw'n ymlaen at groesawu cymaint â phosib dros y misoedd nesaf.

Sara and Darrell



1st Anniversary
QUIZ

We have been Quizzing for 1 Year!
Come and Celebrate with us at:
LLANPUMSAINT MEMORIAL HALL
on: **FRIDAY 19TH APRIL**
DOORS OPEN 7.00PM, FIRST QUESTION 7.30PM

ONLY £2.50 PER PERSON
(MAX 5 PLAYERS PER TEAM)
**BRING YOUR OWN DRINKS,
SNACKS AND GLASSES**

TO BOOK YOUR TEAM contact:-
Sara or Darrell via FB, Messenger or
email sara.ward4@btinternet.com

All profits go to the Memorial Hall Maintenance Fund

CASH PRIZES **SPOT PRIZES**